OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 No. 368

# Rheoliadau Marchnata Hadau a Deunyddiau Lluosogi Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019

## RHAN 2

## Diwygio cyfeiriadau mewn is-ddeddfwriaeth

### Rheoliadau Marchnata Hadau (Cymru) 2012

**3.**—(1) Mae Rheoliadau Marchnata Hadau (Cymru) 2012(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 3(1), ar ôl is-baragraff (b), mewnosoder—

"(c) ystyr "Gwladwriaeth y Farchnad Sengl Ewropeaidd" ("*European Single Market State*") yw un o wladwriaethau'r AEE neu'r Swistir.".

(3) Yn Atodlenni 3 a 4, yn lle "Aelod-wladwriaeth" ym mhob lle y mae'n digwydd, rhodder "Gwladwriaeth y Farchnad Sengl Ewropeaidd" (gan dreiglo yn ôl yr angen);

(4) Yn Atodlen 4—

(a) ym mharagraff 10, ar ôl is-baragraff (6) mewnosoder—

"(b) "(7) Caniateir marchnata yng Nghymru hadau o amrywogaeth anrhestredig sy'n ddarostyngedig i awdurdodiad a ddyroddwyd gan Wladwriaeth AEE arall yn unol â Phenderfyniad y Comisiwn 2004/842/EC(**2**) at y diben o gasglu gwybodaeth a chael phrofiad ymarferol yn ystod y cyfnod tyfu.

(c) (8) Rhaid i hadau sy'n cael eu marchnata o dan is-baragraff (7) gael eu labelu yn unol ag Erthygl 28 o Benderfyniad y Comisiwn 2004/842/EC."";

(d) ym mharagraff 14, ar y diwedd mewnosoder ", ac eithrio hadau llysiau o'r rhywogaethau a restrir yng Nghyfarwyddeb y Cyngor 2002/55/EC(**3**) a gynhyrchir yn y Swistir".

### Rheoliadau Marchnata Planhigion Ffrwythau a Deunyddiau Lluosogi (Cymru) 2017

**4.**—(1) Mae Rheoliadau Marchnata Planhigion Ffrwythau a Deunyddiau Lluosogi (Cymru) 2017(**4**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 11(7), yn lle "Orchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2006" rhodder "Orchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2018(**5**)".

(**1**) O.S. 2012/245 (Cy. 39), a ddiwygiwyd gan O.S. 2013/889 (Cy.101), 2014/519 (Cy. 61), 2016/1242 (Cy. 294) a 2017/1095 (Cy. 276).
(**2**) OJ L 362 9.12.2004, t. 21.
(**3**) OJ L 193 20.7.2002, t. 33.
(**4**) O.S. 2017/691 (Cy. 163).
(**5**) O.S. 2018/1064 (Cy. 223).